# GRADDFA YMDDYGIAD CAERGRAWNT

*Llenwch yr wybodaeth hon, yna darllenwch y cyfarwyddiadau isod.*

**BYDD YR HOLL WYBODAETH YN HOLLOL GYFRINACHOL**

Enw:......................................................................... Rhyw:..........................

Dyddiad geni:................................. Dyddiad heddiw:.................................

**Sut i lenwi'r holiadur**

*Isod, mae rhestr o ddatganiadau. Darllenwch bob datganiad yn ofalus iawn a nodwch ba mor gryf rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad drwy roi cylch o amgylch eich ateb. Does dim atebion cywir nac anghywir a does dim cwestiynau twyllodrus chwaith.*

**ER MWYN I'R RADDFA FOD YN DDILYS, RHAID I CHI ATEB POB CWESTIWN.**

*Enghreifftiau*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| E1. Byddwn i'n drist iawn pe taswn i ddim yn gallu gwrando ar gerddoriaeth bob dydd. | cytuno'n gryf | **(cytuno rywfaint)** | anghytuno rywfaint | anghytuno'n gryf |
| E2. Mae'n well gyda fi siarad â fy ffrindiau ar y ffôn yn hytrach nag ysgrifennu llythyron atyn nhw. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | **(anghytuno'n gryf)** |
| E3. Does dim awydd teithio i wahanol rannau o'r byd gyda fi. | **(cytuno'n gryf)** | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno'n gryf |
| E4. Mae'n well gyda fi ddarllen na dawnsio. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | **(anghytuno rywfaint)** | anghytuno'n gryf |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Rydw i’n gwybod yn union a ydy rhywun arall am ddechrau sgwrs ai peidio. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 2. Rydw i’n cael trafferth wrth esbonio pethau rydw i’n eu deall yn hawdd i bobl eraill, pan dydyn nhw ddim yn deall fy esboniad y tro cyntaf. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 3. Rydw i’n mwynhau gofalu am bobl eraill yn fawr. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 4. Rydw i’n ei chael hi’n anodd gwybod beth i’w wneud mewn sefyllfa gymdeithasol. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 5. Mae pobl yn dweud wrthyf fi yn aml fy mod i wedi pwysleisio fy mhwynt yn ormodol yn ystod sgwrs. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 6. Os ydw i’n hwyr yn cwrdd â ffrind, dydy hynny ddim yn fy mhoeni i’n ormodol. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 7. Mae ffrindiau a pherthnasoedd yn rhy anodd, felly rydw i’n tueddu peidio ag ymdrechu i’w cynnal nhw. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 8. Yn aml, rydw i’n ei chael hi’n anodd gwybod a ydy rhywbeth yn gwrtais neu’n anghwrtais. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 9. Yn ystod sgwrs, rydw i’n tueddu i ganolbwyntio ar fy meddyliau fy hun yn hytrach na beth allai’r unigolyn sy’n gwrando arnaf fi fod yn ei feddwl. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 10. Pan oeddwn i’n blentyn, roeddwn i’n mwynhau torri mwydod yn ddarnau i weld beth fyddai’n digwydd. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 11. Bydda i’n gwybod yn syth pan fydd rhywun yn dweud rhywbeth ond yn golygu rhywbeth arall. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 12. Mae’n anodd i mi wybod pam mae pethau’n gwneud i bobl fynd mor drist. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 13. Rydw i’n ei chael hi’n hawdd ystyried fy hun yn esgidiau rhywun arall. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 14. Rydw i’n gallu rhagweld yn dda sut bydd rhywun yn teimlo. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 15. Bydda i’n gwybod yn syth pan fydd rhywun mewn grŵp yn teimlo’n lletchwith neu’n anghyfforddus. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 16. Os bydda i’n dweud rhywbeth sy’n sarhau rhywun arall, problem ef/hi yw honna, nid fy mhroblem i. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 17. Petai rhywun yn gofyn i mi a ydw i’n hoffi ei wallt, byddwn i’n ymateb yn onest, hyd yn oed petawn i ddim yn hoffi ei wallt. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 18. Dydw i ddim bob tro’n deall pam mae rhywun wedi cael ei sarhau gan sylw. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 19. Dydy gweld pobl yn crio ddim yn gwneud i mi deimlo’n drist mewn gwirionedd. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 20. Rydw i’n ddi-flewyn-ar-dafod ac mae rhai pobl yn credu bod hyn yn anghwrtais, er nad hynny yw fy mwriad. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 21. Dydw i ddim yn tueddu i ddrysu mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 22. Mae pobl eraill yn dweud wrthyf fi fy mod i’n gallu deall sut maen nhw’n teimlo a beth maen nhw’n meddwl amdano. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 23. Pan fydda i’n siarad â phobl, rydw i’n tueddu i siarad am eu profiadau nhw yn hytrach na fy mhrofiadau i. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 24. Mae gweld anifail mewn poen yn gwneud i mi deimlo’n drist. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 25. Rydw i’n gallu gwneud penderfyniadau heb gael fy nylanwadu gan deimladau pobl. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 26. Mae’n hawdd gwybod a ydy rhywun arall yn ymddiddori yn yr hyn rydw i’n ei ddweud neu’n diflasu arno. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 27. Mae gweld pobl yn dioddef ar raglenni newyddion yn gwneud i mi deimlo’n drist. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 28. Fel arfer, mae fy ffrindiau’n siarad â fi am eu problemau. Maen nhw’n dweud fy mod i’n llawn cydymdeimlad. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 29. Bydda i’n gallu synhwyro fy mod i’n ymyrryd â rhywbeth, hyd yn oed os na fydd yr unigolyn arall yn dweud hynny wrthyf fi. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 30. Weithiau, mae pobl yn dweud wrthyf fi fy mod i wedi mynd yn rhy bell wrth bryfocio rhywun. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 31. Yn aml, mae pobl eraill yn dweud fy mod i’n ansensitif, ond dydw i ddim bob tro yn deall pam. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 32. Os bydda i’n gweld rhywun dieithr mewn grŵp, rydw i’n credu mai ei gyfrifoldeb ef/ei chyfrifoldeb hi yw ymdrechu i ymuno. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 33. Pan fydda i’n gwylio ffilm, dydw i ddim fel arfer yn mynd yn emosiynol. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 34. Rydw i’n gwybod yn gyflym ac yn reddfol sut mae rhywun arall yn teimlo. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 35. Rydw i’n ei chael hi’n hawdd gwybod beth allai unigolyn arall fod eisiau siarad amdano. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 36. Bydda i’n gwybod a fydd rhywun yn cuddio ei wir emosiynau ai peidio. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 37. Dydw i ddim yn mynd ati i geisio deall rheolau sefyllfaoedd cymdeithasol. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 38. Rydw i’n gallu rhagweld beth fydd rhywun yn ei wneud. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 39. Mae problemau ffrind yn tueddu i wneud i mi deimlo’n emosiynol. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |
| 40. Fel arfer, rydw i’n gallu gwerthfawrogi safbwynt yr unigolyn arall, hyd yn oed os nad ydw i’n cytuno ag ef. | cytuno'n gryf | cytuno rywfaint | anghytuno rywfaint | anghytuno’n gryf |

***Diolch i chi am lenwi’r holiadur hwn.***

© SBC/SJW Chwefror 1998